



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Lewyrchus

- 1: Caffael teg a lleol:** defnyddio caffael i hybu twf cynhwysol
- 2: Gwaith teilwng:** sbarduno arferion sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus
- 3: Economiâu lleol:** cynorthwyo economïau lleol cynhwysol a'r economi sylfaenol
- 4: Ynni cymunedol a chymdeithas garbon isel:** galluogi sefydliadau a chymunedau i leihau allyriadau a defnyddio ynni carbon isel
- 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol:** annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newidiadau technolegol y dyfodol





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Lewyrchus

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac sy’n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gfael ar waith gweddus”.



Diffinio'r nod

Mae 50 mlynedd wedi mynd heibio ers i Robert Kennedy draddodi ei anerchiad hanesyddol pan hawliodd fod Cynnyrch Domestig Gros yn mesur 'popeth heblaw'r hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw'.

Er gwaethaf hynny, mae Cynnyrch Domestig Gros wedi parhau i fod o'r pwys pennaf i'r cyhoedd a gwneuthurwyr polisi fel y dull critigol o fesur cynnydd. Tra bo'r ffocws traddodiadol hwn ar dwf economaidd wedi llunio'r byd yr ydym yn ei adnabod heddiw, mae wedi gadael llawer o bobl ar ôl. Mae 1% cyfoethocaf y byd yn berchen ar 45% o gyfoeth y byd, tra bo bron i chwarter y bobl yma yng Nghymru'n byw mewn tlogi. Wrth i'r economi ehangu, felly hefyd y galw am yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer hyn. Mae cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl o fyw mewn byd o anghydraddoldeb llwm a banc adnoddau naturiol gwag.

Yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw yw na fedrwc chi ddod o hyd i unrhyw son am Werth Ychwanegol Gros (GYC) neu Gynnyrch Domestig Gros yn niffiniad Cymreig o ffyniant; mae ein

gweledigaeth ni o ffyniant yn mesur yr hyn sydd o bwys. O fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nid yw llesiant economaidd yn cael blaenoriaeth dros lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, neu ddiwylliannol. Ein nod o Gymru lewyrchus yw un lle mae pobl yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a darganfod gwaith gweddus, lle rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a lleol, lle mae'r economi sylfaenol yn cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth leol, a lle'r ydym yn symud tuag at gymdeithas garbon isel.



Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Caffael nwyddau a gwasanaethau mewn dulliau sy'n cynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 1: Caffael Teg a Lleol](#))

Cynorthwyo arferion gwaith teg drwy gyflogaeth a gwasanaethau
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 2: Gwaith gweddus](#))

Cefnogi'r economi sylfaenol drwy gynhyrchu cyfoeth a darparu cyflogaeth
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 3: Economiâu Lleol](#))

Galluogi cymdeithas garbon isel drwy gynorthwyo ynni cymunedol a lleihau allyriadau
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 4: Cynhyrchu Ynni Cymunedol](#))

Gweithio gydag eraill i gynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol](#))

Cefnogi arloesedd i ddatblygu economi addas ar gyfer y dyfodol
([Pwnc taith ar arloesedd i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

Defnyddio adnoddau'n effeithlon, cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang
([Pwnc taith ar economi cylchol i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r fframwaith cyfreithiol a osodwyd gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau sy'n contractio i ystyried ymgorffori agweddau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol mewn manylebau, amodau contract a meini prawf dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni, brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, hybu arloesedd, a chyflogaeth a chynhwysedd cymdeithasol.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:

- [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.](#)
- [Arweiniad ar agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol.](#)

Mae'r rheoliadau contractau cyhoeddus canlynol yn arbennig o berthnasol i'r pwnc caffael teg a lleol:

- **Mae Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn (rheoliadau 74 i 77):** yn cynnig i gomisiynwyr sydd eisieu maxsimeiddio manteision lleol caffael i deilwra'r modd y maent yn gweithredu'r broses gaffael ar gyfer rhai gwasanaethau, er mwyn diwallu anghenion darparwyr lleol.
- **Mae Contractau neilltuedig (Rheoliad 77):** wedi eu dylunio i helpu sefydliadau'r trydydd sector i sefydlu eu hunain a chystadlu i ddarparu gwasanaethau ag iddynt ddimensiwn iechyd, cymdeithasol, addysgol neu ddiwylliannol.
- **Contractau neilltuedig 20 – (1)** Gall awdurdodau contractio (a) gadw'r hawl i gyfranogi mewn gweithdrefnau caffael cyhoeddus weithdai gwarchodol a gweithredwyr economaidd â'u bryd ar integreiddio'n gymdeithasol a phroffesiynol bobl anabl a phobl o dan anfantais, neu (b) drefnu i'r fath gontractau gael eu perfformio yng nghyd-destun rhaglenni cyflogaeth warchodol, ar yr amod bod o leiaf 30% o weithwyr, gweithredwyr economaidd neu

raglenni'r gweithdai hynny yn weithwyr anabl neu'n rhai o dan anfantais.

- **Rheoliad 40 (1):** Cyn cychwyn gweithdrefn gaffael, gall awdurdodau sy'n contractio gynnal ymgynghoriad marchnad gyda'r bwriad o baratoi'r caffael a rhoi gwybod i weithredwyr economaidd am eu cynlluniau a'u gofynion caffael.
- **Rheoliad 40 (3):** 'Gellir defnyddio'r fath gyngor wrth gynllunio ac arwain y weithdrefn gaffael...'
- **Ennyn ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaethau: Rheoliad 76 (8)** '...gall awdurdodau contractio gadw mewn golwg unrhyw ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys '...anghenion penodol categorïau gwahanol o ddefnyddwyr; (ac) ennyn ymgyfraniad defnyddwyr a'u grymuso.'




Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisïau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

Galluogwyr

Bydd gwireddu'r nod yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau'n cael eu monitro – er enghraifft manteision cymunedol.
- Pan ofynnir i fusnesau adrodd ar effeithiau ehangach, yn hytrach nag allbynnau a chanlyniadau rhifiadol yn unig.
- Pan fydd yna ymgysylltu ystyrlon busnesau lleol yn natblygiad cynlluniau economaidd lleol.
- Pan fydd yna amgylchedd polisi sy'n cynorthwyo economi sylfaenol ac ymagweddau carbon isel i ddod yn rhan o'r brif ffrwd.
- Pan fydd datblygu gweithluoedd medrus, amlddisgyblaethol yn flaenoriaeth ym mhob sefydliad.



Analluogwyr

Bydd gwireddu'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- **Pan ganfyddir bod twf economaidd yn ymwneud yn unig â Chynnyrch Domestig Gros neu Werth Ychwanegol Gros.**
- **Pan fydd sefydliadau'n gweithio mewn seilos, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymagweddau cydgysylltiedig a meddylfryd arloesol.**
- **Pan fydd adnoddau naturiol yn cael eu masnachu a'u gwerthu, heb ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.**
- **Pan fydd technoleg carbon isel yn cael ei weld fel rhywbeth costus sy'n creu risg uchel.**
- **Pan fydd sefydliadau'n methu annog diwylliant o waith gweddus, er enghraifft drwy fynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y rhywiau neu gontractau dim-orïau.**





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Lewyrchus

3: Economïau Lleol

Cynorthwyo economïau lleol cynhwysol
a'r economi sylfaenol

Diffinio'r mater

Mae twf economaidd wedi colli cytbwysedd ac mae llawer o gymunedau ledled Cymru'n cael eu gadael ar ôl. Nid yw ceisio ennill ffyniant yn nhermau GVA yn unig yn arwain at economïau lleol cynhwysol - gallai rhai adrannau o'r cyhoedd neu rai ardaloedd daearyddol elwa, ond dim ond ychydig iawn o newid a fyddai'n dod i'r rhai â'r angen mwyaf.

Gall ymagwedd sy'n ffocysu ar adeiladu economïau lleol cynhwysol helpu i fynd i'r afael â hyn tra'n cyflawni llesiant yn yr ystyr ehangaf posibl. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â heriau hirdymor megis tlodi parhaus, iechyd gwael a gwella cyfleoedd bywyd i bawb, yn arbennig y rhai mwyaf difreintiedig. Mae'r [economi sylfaenol](#) yn chwarae rôl allweddol yn hyn. Mae busnesau

sylfaenol, mawr a bach, yn nodweddiadol wedi eu sefydlu neu eu 'gwreiddio' yn yr economi lleol gan gynorthwyo gwasanaethau craidd megis tai a gofal iechyd. Mae ganddynt fel arfer gysylltiadau sy'n cynnwys perchnogaeth leol a/neu reolaeth, cadwyn gyflenwi ranbarthol a gwasanaethau cymorth, llafur lleol a sylfaen gwsmer lleol. Maent yn helpu i gadw ac ailgylchu cyfoeth mewn ardal, gan leihau gollyngiadau gwarged ac elw allan o'r ardal. Bydd caffael yn chwarae rhan allweddol mewn cynorthwyo economïau lleol.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru o gymunedau cydlynus

Pwnc 3: Mynediad i wasanaethau allweddol llesiant



Taith tuag at Gymru o gymunedau cydlynus

Pwnc 4: Sefydliadau angori cymunedol



Taith tuag at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Pwnc 4: Diwylliant yn galluogi ffyniant a chydnerthedd

Gwneud **Newidiadau** Syml

Defnyddiwch ddata gwariant i edrych ar y sylfaen gyflenwi gyfredol, chwiliwch am gyfleoedd i adeiladu cadwyni cyflenwi lleol, ac ystyriwch sut y gallwch gynyddu'r nifer o nwyddau a gwasanaethau (gweler Pwnc 1: Caffael Teg a Lleol).

Gweithiwch gyda'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol i ddeall eich sefydliadau lleol cymunedol a sut yr ydych yn gweithio gyda nhw.

Cynorthwywch a hyrwyddwch ffurfiau amgen o ariannu ar gyfer BBaChau, mentrau micro, a gweithwyr llawrydd, megis **Cyngor Tref y Barri** yn gweithio gyda **Purple Shoots**.

Hyrwyddwch fusnes lleol ymhlith eich staff lleol, er enghraifft, anogwch staff i gynnal cyfarfodydd mewn [siopau coffi a chaffis annibynnol](#).

Defnyddiwch ganolfannau lleol annibynnol ar gyfer cynnal cyfarfodydd a diwrnodau i ffwrdd i staff.

Hyrwyddwch aelodaeth o sefydliadau lleol i staff, [megis undebau credyd lleol](#).

Caniatewch fentrau micro (busnesau'n gweithredu ar raddfa fach iawn) a busnesau cymunedol i ddefnyddio'ch ystafelloedd cyfarfod a'ch cyfleusterau.

Cynorthwywch a dangoswch y ffordd at wasanaethau ariannol cynhwysol i helpu i sicrhau fod pobl lleol yn cael mynediad i [wybodaeth ariannol](#) a chredyd fforddiadwy, gan ganiatáu iddynt gymryd rhan yn yr economi ac adeiladu cyfoeth yn lleol.

Galluogwch staff i weithio bellter i ffwrdd, gan gynnwys canolfannau cydweithredol, megis IndyCube. Mae hyn yn helpu i gadw gwariant a chyfoeth mewn cymunedau.

Bod Yn Fwy Anturus

Mabwysiadwch ymagwedd seiliedig ar le tuag at eich gwaith, gan ganiatáu cydweithredu drwy ddefnyddio ystod o asedau lleol ar draws gwahanol sefydliadau a galluogi cyfuno cyllidebau.

Ymrwymwch i ddefnyddio BBAChau lleol a busnesau cymdeithasol (megis cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol) ble mae hynny'n bosibl.

Rhannwch eich polisïau megis polisïau amgylcheddol ac arferion gwaith diogel, fel templedi neu enghreifftiau o arfer gorau.

Neilltuwch amser staff i ddatblygu gweithgaredd cydweithredol rhwng gwahanol sefydliadau.

Meithrinwch fentora lleol i gyflawni datblygu cymunedol ac economaidd wedi ei ganoli ar y person.

E.e. Mae **Effaith Blaenau Gwent** yn defnyddio ymagwedd Sefydliad Sirolli i gyflawni datblygu cymunedol ac economaidd wedi ei ganoli ar y person.

Cynorthwywch gymunedau i ddatblygu [cynigion cyfranddaliadau cymunedol](#) i ddatblygu asedau a gwasanaethau.

Darparwch addysg a hyfforddiant i staff (yn arbennig y rhai hynny mewn datblygu economaidd a chaffael) ar dai ac adfywio, ymagweddau seiliedig ar asedau, economi sylfaenol a dadansoddiad ac arloesedd cymdeithasol.

Ystyriwch sut y gallwch gynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau'n unol ag anghenion busnesau lleol, sectorau twf a sectorau sylfaenol. Sicrhewch fod hyn yn cynnwys swyddi a sgiliau creadigol a'r rhai hynny mewn economi sylfaenol.

E.e. **Llwybr cyflogaeth Rhondda Cynon Taf** sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau'n unol â'r sectorau twf ac anghenion cyflogwyr lleol, gan ddarparu cyfleoedd yn cynnwys cynlluniau i Brentisiaid a Graddedigion, profiad gwaith a lleoliadau ar amrywiaeth o lefelau yn cynnwys interniaethau prifysgol a darparu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n gadael Gofal y Cyngor drwy'r rhaglenni 'Gofal i Waith' a 'Camu i'r Cyfeiriad Cywir'.

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Hyrwyddwch a chynorthwywch gyfleoedd dysgu cymunedol i oedolion yn eich ardal.

Cynorthwywch gadw busnesau bach a chanolig yn eich cymuned: gan gydnabod potensial busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr sy'n aml yn perfformio'n well na chwmnïau a strwythurau perchnogaeth fwy cyfyngedig. Sicrhewch fod eich staff yn ymwybodol o'r [model busnes](#) hwn hefyd.

ee

E.e. [Tregroes Waffles](#)

Rhowch rôl 'ffrind beirniadol' i sefydliadau allanol a thimau mewnol yn y broses llunio polisi, yn amrywio o gymeradwyo mentrau i werthuso canlyniadau.

CARTREF

Defnyddiwch ddata

cydraddoldeb a thueddiadau gweithlu'r dyfodol i dargedu rhaglenni sgiliau at grwpiau a dangynrychiolir mewn rhai sectorau a lle mae bylchau mewn sgiliau - er enghraifft targedu menywod i ddatblygu sgiliau o amgylch STEM ar gyfer meysydd twf megis ynni adnewyddadwy, seiberddiogelwch a.y.y.b.

Dechreuwch ddefnyddio

safleoedd ac adeiladau y gellir eu defnyddio ar gyfer cychwyn busnes/gofod gwaith/gwella manau gwyrdd/canolfannau cymunedol.

Defnyddiwch sgiliau i fentora/cynorthwyo grwpiau cymunedol, partneriaid a busnesau bach.

Perchnogi'r **Uchelgais**

Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

Ehangwch gymorth i'r economi sylfaenol tu hwnt i'r pedwar sector sylfaenol a nodwyd yn wreiddiol gan 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru, yn cynnwys dysgu oddi wrth a chynyddu llwyddiannau o 'Gronfa Her' Addysg Bellach.

Sefydlwch swyddogaeth gymorth i alluogi timau prosiect, sy'n cyfuno gweision sifil, staff cyrff cyhoeddus ac arbenigwyr allanol ar ddatblygu a chyflwyno polisi arbrofol.

Galluogwch ac anogwch

Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n dwyn at ei gilydd sefydliadau angori lleol i gynorthwyo'u heconomi lleol drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol/busnesau cymdeithasol gan gaffael ar y cyd, a phrynu'n lleol, i sbarduno cynnydd mewn cwrdd â nodau llesiant Cymru.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu sefydliadol

Buddsoddwch rannau o gronfeydd pensiwn yn lleol. Er enghraifft mewn [cynlluniau ynni lleol](#).

E.e Mae hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn [Enfield](#).

Sicrhewch fod cymorth busnes yn cael ei ffurfweddu i ddarparu cymorth holistig ar draws cylch bywyd cwmnïau bach a chanolig i sicrhau eu bod yn gynaliadwy a hir eu parhad, yn ogystal ag wedi eu gwreiddio yn yr ardal.

Cynigiwch fynediad i fenthyciadau llog isel/dim llog o bob maint a chymorth busnes arbenigol i sefydliadau'r trydydd sector a busnesau cymdeithasol.

Helpwch gwmnïau cydweithredol bach i ddatblygu drwy ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn megis cyflogres, cyfrifo a swmp-brynu nwyddau.

Darparwch arian a buddsoddiad i helpu i ddatblygu cwmnïau cydweithredol bychan.

Cynorthwywch ddatblygiad, banc Cymunedol Cymru, [Banc Cambria](#), a lle mae hynny'n briodol defnyddiwch y banc hwnnw.

ee

CARTREF

Enghreiffitiau ac adnoddau eraill

**Tudalen hafan Llywodraeth
Cymru ar yr economi sylfaenol:**

https://llyw.cymru/yr-economi-sylfaenol?_ga=2.46570087.1114975881.1567690177-1190047263.1567690177

**Ein heconomiâu lleol -
cymunedau'n adeiladu ffyniant:**

<http://www.bct.wales/uploads/resources/2018-07-11-01-1-our-local-economies-manifesto.pdf>

**Rhwydwaith Economi
Sylfaenol:**

<https://foundationaleconomy.com/introduction/>

Yr hyn y gall Cymru ei wneud:

<https://foundationaleconomy.com.files.wordpress.com/2017/02/what-wales-can-do-22-june-2017-final-v2.pdf>

Yr hyn y gallai Cymru fod:

<https://foundationaleconomy.com.files.wordpress.com/2017/01/what-wales-could-be.pdf>

**Creu economïau dinas da yn y
DU:**

<https://goodlocaleconomies.cles.org.uk/government/a-thriving-local-economy/build-a-foundational-economy/>

**Locality: yr ymgyrch 'Keep it
Local':**

<https://locality.org.uk/policy-campaigns/keep-it-local/>

**Mae 'Nesta's Playbook' ar gyfer
dysgu am arloesedd wedi
ei greu ar gyfer ymarferwyr
arloesedd sy'n dymuno
lledaenu sgiliau arloesol,
dulliau ac offer:**

<https://www.nesta.org.uk/toolkit/playbook-for-innovation-learning/>